

Cenn@d

HYDREF 4 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 136

Agor y Llyfr yn ardal Aberystwyth



Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous i rannu straeon Beiblaidd gyda plant, a hynny mewn ffordd hwyliog, rhyngweithiol a chofiadwy. Braff iawn oedd cwrdd â rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* sydd yn barod yn Storiwyr yn Aberystwyth a'r cyffiniau mewn Sesiwn Hyfforddiant yng Nghapel y Morfa yn ddiweddar.

Efallai ichi ddarllen erthygl Aled yn rhifyn 125 o *Cenn@d* yn adrodd ar lansiad ein hadnoddau newydd, sef *Beibl y Storiwr* gan Bob Hartman a Llawlyfr y Storiwr (y canllaw sy'n cyd-fynd â *Beibl y Storiwr* ac sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn cyflwyno'r hanesion). Ar hyn o bryd mae tua chant o dimau yng Nghymru sy'n ymweld ag ysgolion cynradd, a chwarter o'r rheiny yn dimau Cymraeg eu hiaith.

Roedd yn dda clywed am yr ymateb cadarnhaol o'r ysgolion wrth iddynt dderbyn y timau, ac am ymateb brwdfrydig y plant wrth iddynt wrando a chymryd rhan yn y gwasanaethau. Roedd hefyd yn galonogol croesawu sawl darpar Storiwr a chlywed am eu dymuniad i ymestyn y rhwyd a dechrau ymweld ag ysgol arall yn yr ardal.

Erbyn hyn, rydym yn tristáu nad oes llawer o ysgolion Sul yn cael eu cynnal yn ein capeli. Mae Agor y Llyfr yn adnodd gwerthfawr ac effeithiol sy'n ein galluogi i fynd â'r Beibl at blant ein cymuned, er mwyn iddynt cael cyfle i glywed a mwynhau'r hanesion o'r Beibl sydd mor annwyl a phwysig i ni.

Mae'r adnoddau hyfryd yn ei gwneud yn haws i ni fentro ar y gwaith ac mae hyfforddiant craidd ar gael, ynghyd â chefnogaeth gyson gan swyddogion Agor y Llyfr. Os hoffech wybod mwy am Agor y Llyfr, cewch hyd i lawer o wybodaeth ar wefan [Open the Book](#) neu mae croeso i unrhyw un gysylltu â mi: sarah.morris@openthebook.net.

Sarah Morris



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cynhelir y Gymdeithasfa yn y Gogledd

yng
nghapel Moreia, Llangefni

a thrwy gyfrwng Zoom
ddydd Mawrth, 17 Hydref 2023

Yr eisteddiad cyntaf am 10.30yb
a'r ail eisteddiad am 2yp

Am ragor o fanylion, cysyllter ag Elwyn Richards:
elwyn.richards@ebcpcw.cymru
www.ebcpcw.cymru/cy/

Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwirydd,
Undeb Bedyddwyr Cymru, 2023
Tudalen 2

Cofio'r Athro Brynley Francis Roberts
Tudalen 4

SOULED OUT '23
Tudalen 7

Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd, Undeb Bedyddwyr Cymru, 2023



O'r chwith i'r dde: Mrs Helena Lewis a Mrs Bethan Picton Davies (Rhannau arweiniol); Y Parch. Sian Elin Thomas (Llywydd), gyda'r panel: Y Parch. Deb Stammers, Mrs Helen Gibbon, y Parch. Beti Wyn James a'r Parch. Carys Hamilton

Ar brynhawn braf ganol Medi, tyrrodd chwiorydd o bob rhan o Gymru i gapel y Graig, Castellnewydd Emlyn, yng Nghymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, ar gyfer cyfarfodydd blynyddol Mudiad y Chwiorydd. Y llynedd, ymgynnull yn y Tabernacl, Caerdydd, fu'r hanes a chyn hynny, cyn y cyfnod clo, ym Mangor yn Arfon, a chyn hynny yn Nhreforys, Gorllewin Morgannwg. Y flwyddyn nesaf, gobeithir teithio i Fôn. Bydd yr achlysur yma bob amser yn rhoi cyfle i gyfarfod â chynulleidfaoedd ar draws Cymru gyfan ac ymweld weithiau â lleoedd nas ymwelwyd â hwy erioed o'r blaen.

I'r ffyddloniaid sy'n mynychu Dydd Agored Glyn Nest yn flynyddol, roedd Castellnewydd Emlyn yn lle cyfarwydd iawn, wrth gwrs. I'r rhai nad oedd yn gyfarwydd â'r lle, cafwyd darlun hyfryd a chynhwysfawr iawn o'r dref a'i thrigolion enwog gan y chwaer Nest Thomas yn oedfa'r prynhawn wrth iddi groesawu pawb i'r eglwys. Ond hyd yn oed cyn i un gair gael ei lefaru, roedd y croeso'n amlwg,

pe bai dim ond am y blodau hyfryd oedd yn addurno'r capel.

Y rheswm dros ymgynnull yn y Graig eleni oedd am mai gweinidog yr eglwys honno, y Parch. Sian Elin Thomas, oedd yn cael ei dyrchafu i Lywyddiaeth y Mudiad am 2023-4. Mae hi hefyd yn weinidog ar ddwy eglwys arall – Ebeneser Dyfed, yn sir Benfro, ac oddi ar y Sadwrn cynt, Pen-y-bont, Llandysul, ac roedd yr eglwys hynny hefyd yn rhan o'r croeso.

Oedfa'r Prynawn

Llywydd presennol y mudiad, y chwaer Ruth Davies o eglwys y Tabernacl, Caerdydd, oedd yn gyfrifol am lywyddu oedfa'r prynhawn. Ar ôl iddi offrymu'r weddi agoriadol, a chyn cyflwyno'r emyn cyntaf, cafwyd gwledd i'r glust a'r llygad wrth i blant o Ysgol y Ddwylan gyflwyno eitem gerddorol swynol a llawn egni, gan godi calon pawb oedd yn besennol.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan ddwy chwaer leol. Darllenwyd gan Beti Thomas, Ebeneser Dyfed, ac offrymwyd y weddi gan Lynda Williams, o'r Graig, cyn i ysgrifennydd yr eglwys, Nest Thomas, estyn croeso cynnes i chwiorydd Cymru i'r Graig am y tro cyntaf erioed yn hanes y mudiad. Wedi canu emyn y mudiad a derbyn yr offrwm, cyflwynwyd adroddiad yr ysgrifennydd gan Bonni Davies; adroddiad y trysorydd gan Hazel William Jones; ac adroddiad Glyn Nest gan Mair Roberts, ysgrifennydd y Pwyllgor Tŷ, cyn symud ymlaen i Seremoni Urddo'r Llywydd newydd.

Cyflwynwyd y llywydd newydd mewn modd annwyl a gyda graen arbennig gan y ferch ifanc Fflur James, o Ebeneser Dyfed. Yna, gyda'r gynulleidfa ar ei thraed ac yn canu 'Dyma Feibl annwyl Iesu', arwyddodd y llywydd newydd Feibl y mudiad ac arwisgwyd hi â Thlws Nanette, sef cadwyn arian y mudiad o waith y gemydd Rhiannon, gan Ruth Davies. Offrymwyd gweddi'r urddo gan

y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru.

Darllenwyd cyfarchion cynnes i'r llywydd newydd gan Bonni Davies ar ran Dr Menna Machreth Llwyd, llywydd cyfredol Senana Cymru. Gorchwyl pleserus cyntaf y llywydd newydd oedd cyflwyno i'r gynulleidfa is-lywydd newydd y mudiad, un y bu Sian Elin yn cydastudio â hi, sef y Parch. Deb Stammers o Gymanfa Môn. Estynnodd Deb groeso cynnes i bawb i eglwys y Tabernacl, Llannerch-y-medd, ar 11 Medi y flwyddyn nesaf.

Dewisodd y llywydd 'Un Eglwys' fel thema i'r ddwy oedfa, ac yn ei hanerchiad o'r gadair rhannodd Sian Elin â'r gynulleidfa y neges, er bod pawb yn yr eglwys yn wahanol, fod gan bob un rywbeth i'w gynnig a rhyw rôl i'w chyflawni wrth adeiladu'r eglwys heddiw. Heriodd y gynulleidfa hefyd i gymryd y gwahaniaethau fel cryfderau ac nid fel gwendidau, am mai NI yw traed a dwylo Crist ar y ddaear. Daeth oedfa hyfryd a bendithiol i glo wrth i'r Parch. Judith Morris gyhoeddi'r fendith ac offrymu gras cyn bwyd. Aeth pawb am y festri yn seiniau hyfryd yr organ, a chwaraewyd gan Nest James, cyfeilydd yr oedfa.

Hyfryd iawn oedd y gymdeithas o amgylch y byrddau rhwng y ddwy oedfa, a diolchir i Delyth o Ebeneser Dyfed a chwiorydd y tair eglwys am baratoi mor anrhydeddus.

Oedfa'r hwyr

Parhawyd â'r thema 'Un Teulu' yn oedfa'r hwyr o dan lywyddiaeth Sian Elin, y llywydd newydd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Helena Lewis, Pen-y-bont, Llandysul, a Mrs Bethan Picton Davies, Ebeneser Dyfed. Cyfoethogwyd yr oedfa ag eitem gerddorol gan Gôr Crymych a'r cylch, côr y mae Sian Elin ei hun yn aelod ohonno.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)



*Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd,
Undeb Bedyddwyr Cymru, 2023
(parhad o dudalen 2)*

Yn ei chyflwyniad i'r oedfa hon, nododd y llywydd iddi fod yn Fedyddwraig i'r carn ond mai ail beth oedd hynny ac mai bod yn Gristion oedd yn dod yn gyntaf. Taflwyd y cwestiwn i'r gynulleidfa: 'A oes lle i enwadaeth yng Nghymru?' Er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw, a llawer cwestiwn arall, roedd Sian Elin wedi gwahodd panel o ferched i ddod i'r oedfa ar gyfer sesiwn holi ac ateb. Roedd y Parchedigion Deb Stammers, Carys Hamilton (a gamodd i mewn ar y funud olaf yn lle'r Parch. Heulwen Evans), Beti Wyn James a Mrs Helen Gibbon, i gyd o wahanol enwadau, a diddorol iawn oedd clywed eu hatebion i'r cwestiynau heriol a daflwyd atynt gan y llywydd. Cyfareddwyd y gynulleidfa gan lawer o atebion y merched a daeth pawb



o'r oedfa gyda theimlad bod amrywiaeth yn beth da, ond mai peth da hefyd fyddai i'r enwadau glosio at ei gilydd a chydweithio â'i gilydd yn fwy aml o lawer. Daeth yn amlwg hefyd, wrth drafod, y dylid bob amser roi blaenoriaeth i'r laith Gymraeg yn ein hoedfaon.

Cyn yr emyn olaf, diolchodd yr Is-lywydd, Deb Stammers, ar ran pawb am oedfaon hyfryd a bendithiol ac am yr holl waith a'r croeso twymgalon, rhywbeth oedd yn enghraifft dda o gydweithio. Diolchodd

hefyd i organydd oedfa'r hwyr, Mr Meirion Wynn Jones.

Daeth oedfa fendithiol i ben trwy weddi gan weinidog yr eglwys, a llywydd newydd y mudiad, y Parch. Sian Elin Thomas. Nid ar chwarae bach y trefnir cyfarfodydd fel hyn ac felly diolch o waelod calon i Sian Elin a'i thîm o weithwyr am yr holl drefniadau.

*Bonni Davies
Ysgrifennydd y Mudiad*

Cysuro'r Claf: Ysbrydoledd mewn ysbyty (Eric Jones)


Wedi gweinidogaethu yn Llansannan a Bangor am gyfnod da, rhoddodd y Parch. Eric Jones gyfrif yr un mor dda ohono'i hun fel gweinidog cydwybodol a chyfeillgar.

Yn naturiol, yng nghyfnod Bangor, ac Ysbyty Gwynedd ar garreg y drws, ac fel sawl gweinidog arall yn y ddinas honno, rhoddodd Eric gyfrif da ohono'i hun hefyd fel un o gaplaniaid Ysbyty Gwynedd. Gwnaeth ei waith yma eto yn gydwybodol, gan gymryd diddordeb ym mywydau'r cleifion a dod yn agos at y profiadau mwyaf ingol sy'n taro pobl ar daith bywyd.

Do, bu iddo gael ei wahodd i draddodi'r Ddarlith Davies yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2021 yn Seilo, Caernarfon, a dewisodd destun oedd wrth fodd ei galon sy'n sail i'r gyfrol yma.

A gwych o syniad oedd ei chyhoeddi'n gyfrol hylaw, werth ei darllen, ac mae hi'n darllen yn rhwydd – yr iaith yn ystwyth, y gwaith ymchwil yn fanwl, y lluniau'n ddiddorol, a diwinyddiaeth gadarn Grist-ganolog yn sylfaen iddi.

Mae pob rhan o'r llyfr yn ddiddorol, ond i mi'n bersonol mae cyplysu 'Ysbrydoledd' a 'Gweddi' wedi cael ei drafod yn hynod effeithiol. Ac mae'r bennod 'Gwerth Gweddi' yn dadansoddi'n glir sut mae defnyddio doethineb wrth drafod gweddi yng nghyd-destun cleifion a theuluoedd, ac wrth gwrs yng nghyd-destun staff yr ysbytai. Mae llun o Goeden Weddi mewn ysbyty'n ddiddorol, ag enwau a



cheisiadau'n cael eu rhoi ar y goeden, ac un cais yn benodol arni: 'Jesus, heal my husband or I'll rip up the picture I have of you on our landing'. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r caplan, fel pob gweinidog ac offeiriad, mewn sefyllfa o argyfwng, fod yn barod i wrando ar feirniadaeth fel yna tuag at Dduw a thuag at y caplan. Rhaid hefyd bwysleisio bod gweddi syml yn gynhaliath gadarn i lawer claf a theulu.

Rhywbeth pwysig arall, wrth gwrs – ac efallai y byddech chi'n disgwyl i mi ddweud hynny – yw gwerth cerddoriaeth a chanu, a chanu emynau. Mae stori am un nyrs yn canu emyn David Charles, 'O lesu mawr, rho d'anian bur ...' wrth fynd o gwmpas ei waith wedi i'r ymwelwyr

droi am adref gyda'r nos, ac un o'r cleifion ar y ward, oedd yn derfynol wael, yn gofyn iddo ailganu pennill cyntaf yr emyn hwnnw:

O lesu mawr, rho d'anian bur
I eiddil gwan mewn anial dir,
I'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy
Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.

Yn yr un adran hefyd y mae llun o Reolwr Caplaniaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – y Parch. Wynne Roberts, yr 'Elvis' Cymraeg – yn canu i'r cleifion, a gwn am fwy nag un sefyllfa benodol lle mae Wynne wedi bod yn gymorth efo canu i gleifion. Bu Wynne a minnau'n gydweithwyr ym Mhorthmadog am gyfnod ac yn gyfeillion da, ac wedi iddo fynd i fyd a maes caplaniaeth ysbytai, yr oedd ei empathi cerddorol a'i bersonoliaeth yn gymorth mawr.

Un peth hollbwysig yw nad oes dim arlliw o hunan-bwysigrwydd yn y gyfrol. Mae'n llawn gostyngeddrwydd a chydabyddiaeth o wasanaeth caplaniaid eraill. Yn goron ar y cyfan, mae dibyniaeth lwy'r yr awdur ei hun ar nerthoedd a chysuron Efengyl Iesu Grist, a hynny wedyn yn arwain at drosglwyddo'r nerthoedd a'r cysuron hynny i eraill.

Dyma gyfrol y dylai unrhyw un sydd yn y gwaith o gysuro a chynnal cleifion ei darllen. Diolch, Eric, amdani.

Iwan Llewelyn

(Cyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn; 48tt; pris: £6.95)

Cofio'r Athro Brynley Francis Roberts

Brodor o Aberdâr oedd Bryn, un o ddau o blant y diweddar Robert F. Roberts a Laura Jane Roberts. Argraffydd wrth ei alwedigaeth oedd Robert Roberts, a chan fod tref Aberdâr yn lle amlwg yn y maes hwnnw, symudodd y ddau o ardal Caernarfon a dechrau bywyd newydd. Daeth 16, Stuart Street, yn gartref a Bethania, un o gapeli'r Methodistiaid Calфинаidd, yn gartref ysbrydol, a bu dylanwad yr aelwydydd hynny yn amlwg ar gerddediad Bryn trwy gydol ei fywyd. Byddai'n sôn am fywyd y capel ac yn tanlinellu'r gwahaniaeth rhwng capel trefol a chapel cefn gwlad, a'r ffaith fod profiadau'r mynychwyr yn wahanol. Roedd dylanwad capel cefn gwlad i'w weld ym mhobman, ond bywyd a dylanwad gwahanol oedd i'w weld mewn tref fel Aberdâr.

Mynychodd Ysgol Ramadeg y Bechgyn, ac roedd ei allu academaidd yn amlwg o'r dechrau. Bu'n Brif Fachgen a chwaraewr rygbi medrus a chwblhaodd ei 'Higher' yn 1947 a 1948. Yn ei eiriau ei hun:

Enillais fy Uwch yn 1947 ac yna cefais y darn gorau o gyngor academaidd a gefais erioed. Doedd dim sôn yn y blynyddoedd hynny, wrth gwrs, am flwyddyn i ffwrdd ond dywedwyd wrthyf fy mod yn rhy ifanc (rhy anaeddfed, mae'n debyg eu bod yn golygu) i fynd i'r brifysgol ac y dylwn aros yn yr ysgol am flwyddyn arall ac ail-wneud y cwrs heb ofni methiant yn hongian dros y tro hwn. Dyma fy mlwyddyn fwyaf pleserus yn yr ysgol.

Fe aeth i Aberystwyth gan raddio yn y Gymraeg yn 1951. Yn dilyn cyfnod o hyfforddi ac ymchwil, bu'n rhaid iddo gyflawni ei ddwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol. A hithau'n dyddiau'r 'Rhyfel Oer', bu Bryn wrthi'n dysgu Rwsieg er mwyn clustfeinio ar ambell neges, a gallwn ddychmygu ei fod wedi cyflawni'r dasg yna gyda phob manylder a threfnusrwydd.


Yn 1957, fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Aberystwyth, gan symud i Abertawe yn 1978. Yno y bu hyd 1985, pryd y cafodd ei benodi yn bennaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a bu wrth y swydd honno hyd ei ymdeoliad yn 1994.

Amhosibl yw crynhoi mewn ychydig eiriau gyfraniad Bryn i'r Gymraeg a bywyd academaidd ein gwlad, ac fe'ch anogaf i geisio a darllen y llu teyrngedau sydd wedi eu hysgrifennu iddo ynghyd â'r cyfeiriadau at ei gyfraniadau ysgrifenedig, yn llyfrau ac yn erthyglau. Bu wrthi ers y saithdegau yn crynhoi bywyd Edward Lhwyd a thrwy gymorth cyfeillion, cwblhawyd y gwaith, ac er ei ddirywiad iechyd, braf oedd cael gosod copi terfynol yn ei ddwylo yn symbol o'r llu cyfrolau y bu'n gyfrifol amdanynt.

Derbyniodd anrhydeddau lu, gan gynnwys y CBE, a'r cyfan yn cael ei dderbyn gyda mesur o wyleidd-dra a thawelwch. Bu'n diwtor caredig i'w fyfyrwyr, gan rannu ei wybodaeth yn ostyngedig a diymhongar.

Brynley Francis Roberts, Dr Brynley Roberts, ond i bobl Capel y Morfa, Dr Bryn neu Bryn. Nid rhywbeth ychwanegol at fywyd oedd ffydd Bryn ond yn hytrach rhan naturiol o'r gwlad yna oedd yn ei wneud y person ydoedd. Cyfrannodd yn hael at fywyd crefyddol ein cenedl, a hynny drwy ysgrifennu a golygu cyfrolau hanesyddol a llyfrau defosiynol, a bu'n gadeirydd doeth ac amyneddgar ar gymaint o bwyllgorau. Fe'i hanrhydeddwyd â Llywyddiaeth Cymdeithasfa'r De a'r Gymanfa Gyffredinol, a byddwn yn dragwyddol ddyledus iddo am ei waith yn sicrhau cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, ein llyfr emynau cydenwadol. Roedd y cyfan yn cael ei gyflawni'n dawel heb unrhyw rodres na sylw, oherwydd yn fel yna oedd Bryn. Yn wir, nid oedd Bryn yn hapus os nad oedd yna waith ar y ddesg, a bu'n golygu'r *Traethodydd* a *Gair y Dydd* am gyfnifer o flynyddoedd.

Ond fe gafodd pobl y Morfa'r fraint o'i adnabod mewn perthynas wahanol. Bu'n flaenor ers 1965, yn gyntaf yn Salem, Aberystwyth, ac yna, pan unwyd Salem a Seilo i greu Capel y Morfa, yn athro ysgol Sul cydwobodol a threfnus ac yn aelod ffyddlon oedd yn gweld gwerth addoliad a myfyrdod. Oherwydd y dirywiad yn ei iechyd, symudodd yr ysgol Sul o fore Sul i nos lau, ac ymhen amser i'w gartref, Hengwrt, ond parhaodd Bryn i ddarparu ac arwain yn drylwyr ac amyneddgar, a hynny heb chwenychu unrhyw fedal na chlod. Roedd yn athro ond hefyd yn ddisgybl, a bu ei ffyddlondeb i'r astudiaethau Beiblaidd yn esiampl o wyleidd-dra a doethineb.



Roedd yn un o sylfaenwyr y Morlan, gan dreulio oriau'n pwyllgora a thrafod ac ymweld, y cyfan yn adlewyrchu ei ddyhead i weld y Gristnogaeth yn cael ei chyflwyno i genhedlaeth newydd.

A lle bynnag roedd Bryn, felly Rhiannon. Bu'r ddau'n caru ers dyddiau ieuencid, carwriaeth a arweiniodd at briodas a theulu, a bu'r uniad yn un llawn dealltwriaeth a chefnogaeth.

Wedi blynyddoedd o salwch, salwch a wynebodd â dewrder a ffydd, bu farw'n dawel yn Ysbyty Bronglais.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhiannon, Rolant a Maredudd a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar 4 Medi, gyda'r Parch. Eifion Roberts, Miss Gwerfyl Pierce Jones a'r Parchedigion Pryderi Llwyd Jones a Nan Wyn Powell-Davies yn gwasanaethu.

*Eifion Roberts
Capel y Morfa*

**Tynor yr Hydref
Yn Coleg y Bala**

**CLWB HYDREF
I BLANT 8-11 OED
30-31 HYDREF**

**CWRS IEUENCTID
I FLYNYDDOEDD UWCHRADD 7-10
3-5 TACHWEDD**

**ARFOGI
PENWYTHNOS I ANNOG AC ARFOGI
OEDOLION IFANC
17-19 TACHWEDD**

colegybala.org

‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?’ (Rhan 4)

Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones

Y Parch. Siôn Brynach

Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru

Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr

nos Fercher, 9 Awst 2023

Wedi’r cyfan hanfod eciwmeniaeth yw’r adnodau hynny o’r 17eg bennod o Efengyl Ioan sy’n adrodd sut y bu i Iesu, y noson cyn ei groeshoelio, weddio ar y Tad gan ddweud:

Rwy’n gweddio ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i’r byd gredu mai tydi a’m hanfonodd i. Yr wyf fi wedi rhoi iddynt hwy y gogoniant a roddaist ti i mi, er mwyn iddynt fod yn un fel yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thydi ynof fi, a hwythau felly wedi eu dwyn i undod perffaith, er mwyn i’r byd wybod mai tydi a’m hanfonodd i, ac i ti eu caru hwy fel y ceraist fi.

Efallai mai’r ymadrodd allweddol i ni yma yw ‘Un er mwyn y byd’. A dyw hi’n ddim syndod mai dyma deitl cyfrol gan un o’r rhagflaenwyr digymar yn y swydd hon, y Parch. Noel Davies, a gyhoeddwyd ym 1988.

Felly, dyma ddwy stori fach chwim i gloi sydd efallai’n taflu rhywfaint o oleuni ar yr hyn sydd gen i mewn golwg – y gyntaf o’r ysgrythurau, o’r Efengyl yn ôl Mathew 9: 18–26, a’r ail o faes cwbl wahanol. Y stori o Efengyl Mathew yn gyntaf:

Tra oedd ef yn siarad fel hyn â hwy, dyma ryw lywodraethwr yn dod ato ac ymgyrnu iddo a dweud, “Y mae fy merch newydd farw; ond tyrd a rho dy law arni, ac fe fydd fyw.”

A chododd Iesu a dilynodd ef gyda’i ddisgyblion.

A dyma wraig ac arni waedlif ers deuddeng mlynedd yn dod ato o’r tu ôl ac yn cyffwrdd ag ymyl ei fantell. Oherwydd yr oedd hi wedi dweud ynddi ei hun, “Dim ond imi gyffwrdd â’i fantell, fe gaf fy iacháu.” A throes Iesu, a gwelodd hi, ac meddai, “Cod dy galon, fy merch; y mae dy ffydd wedi dy iacháu di.” Ac iachawyd y wraig o’r munud hwnnw.

Pan ddaeth Iesu i dŷ’r llywodraethwr, a gweld y pibyddion a’r dyrfa mewn cynnwrf, dywedodd, “Ewch ymaith, oherwydd nid yw’r eneth wedi marw;


cysgu y mae.” Dechreusant chwerthin am ei ben. Ac wedi i’r dyrfa gael ei gyrru allan, aeth ef i mewn a gafael yn ei llaw, a chododd yr eneth. Ac aeth yr hanes am hyn allan i’r holl ardal honno.

1. Ymateb i wahoddiad ac angen – hyd yn oed oddi wrth bwysigion – ac yn gweld tu hwnt i’w statws ac yn gweld y person – a’r ing – sydd ynghlwm â’r cais.
2. Y wraig â gwaedlif – ar y cyrion yn ddiwylliannol yn ogystal â meddygol oherwydd ei anhwylder – ac wedi dioddef ers nifer fawr o flynyddoedd. Ond doedd Iesu byth yn rhy brysur i ddelio ag angen, hyd yn oed ar ei ffordd i gynorthwyo pwysigion.
3. Ac yna rydym yn cyrraedd cartref y llywodraethwr, ac mae ’na wylofain a rhincian dannedd yma. A’r hyn sy’n drawiadol yw bod Iesu yn cael pobl yn chwerthin am ei ben, ond dyw hynny ddim yn ei wyro o’i dasg.

Felly, beth yw gwersi’r darn bach hwn i ni fel Cristnogion yn ystyried dyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru:

1. Yn gyntaf – mai’r hyn mae Iesu yn ei wneud yw ymateb i **angen** – oddi wrth y pwysigion a’r rhai ar gyrion cymdeithas.
2. Yn ail – pwysigrwydd gofyn i Iesu am yr hyn sydd ei angen arnom a bod â ffydd y bydd yn ateb ein gweddïau – efallai mewn ffordd nad ydym yn ei ddisgwyl, ond bod ateb i weddi.
3. Ac yn drydydd – y bydd pobl yn chwerthin arnom os byddwn ni’n gwneud gwaith yr Arglwydd – ond na ddylem adael i hynny ein gwyr o’r llwybr.

Felly, gadewch i mi orffen gyda’r ail stori sydd ynghylch hedfan. Nawr, fel mae rhai ohonoch chi’n gwybod, mae Pwyll, ein mab hynaf, yn hyfforddi i fod yn beilot masnachol. Mae wedi bod â diddordeb ysol mewn hedfan ac wedi bod eisiau bod yn beilot ers iddo ddechrau siarad yn blentyn bach iawn. Felly, mae stori ‘Y wyrth ar yr Hudson’ wedi bod yn



rhan o chwedloniaeth y teulu ers i’r ddamwain ddigwydd ar 15 Ionawr 2009. I’r rhai ohonoch chi sydd ddim mor hysbys â ni â’r stori, ga’ i eich gwahodd i wyluo’r ffilm *Sully*, gyda Tom Hanks yn chwarae rhan capten yr awyren, neu wrando ar bodlediad ar BBC Sounds o’r enw *Witness History: Miracle on the Hudson*. Yn y podlediad hwnnw, rydym yn clywed llais y Capten Chesley “Sully” Sullenberger ar ehediad US Airways 1549 o faes awyr La Guardia yn Efrog Newydd. Ond y cymeriad amlycaf yn y podlediad yw Dave Sanderson, yr olaf o’r 155 o deithwyr i adael yr awyren.

Felly dyma’r stori yn ei hanfod. Fe gododd yr awyren, Airbus A320, o faes awyr La Guardia yn Efrog Newydd gyda’r bwriad o hedfan i Charlotte yn North Carolina. Dwy funud ac un eiliad ar ddeg ar ôl gadael y llain laniog, pan oedd yr awyren ar uchder o 2,818 o droedfeddi, fe drawodd yr awyren haid o wyddau gyda nifer o’r gwyddau, druan, yn cael eu sugno i mewn i’r ddwy injan. Ar unwaith fe ddaeth y ddwy injan i stop. Aeth y ddau beilot drwy’r holl gamau ar y rhestr ar gyfer ailgychwyn yr injans, a dod i’r casgliad nad oedd modd gwneud hynny. Dywedodd Sully yn fuan iawn wrth Air Traffic Control nad oedd modd iddo ddychwelyd i La Guardia na mynd chwaith i faes awyr arall yn y cyffiniau, sef Teterboro yn New Jersey. Mewn

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru? (rhan 4)' Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones gan y Parch. Siôn Brynach Prif Weithredwr Cytûn, Eglwys ynghyd yng Nghymru (parhad o dudalen 5)

y chydig iawn o eiriau mae'n dweud wrth ATC: 'We're going in the Hudson.' Lai na saith munud wedi gadael y llain lano, rywsut llwyddodd Sullenberger i lano'r awyren ar afon Hudson yn un darn.

Felly, beth oedd hanes Dave Sanderson, y teithiwr olaf i adael yr awyren ar ôl iddi lano yn afon Hudson? Roedd Dave yn deithiwr cyson, ac yn hedfan dros 100 o weithiau y flwyddyn fel dyn busnes. Roedd e bob amser yn dilyn yr un patrwm wedi dringo ar yr awyren: setlo yn ei sedd, agor ei gylchgrawn a gwrando ar ryw beth drwy ei glustffonau. Fyddai o byth yn gwrando ar y cyhoeddiad diogelwch, na chwaith yn edrych i weld lle'r oedd y drysau er mwyn gadael yr awyren mewn argyfwng.

Pan drawodd yr awyren y gwyddau, fe glywodd Dave yr injan agosaf ato yn dod i stop. Roedd hyn wedi digwydd o'r blaen, felly doedd e ddim yn orofidus. Mater o droi'n ôl fyddai hi a chael awyren arall i barhau â'r daith. Wrth gwrs, wyddai o ddim fod yr ail injan wedi dod i stop hefyd, a dim ond pan welodd e adeiladau Manhattan yn llawer nes nag erioed o'r blaen drwy ffenestri'r awyren y dechreuodd feddwl bod rhywbeth o'i le. Cafodd hynny ei gadarnhau pan glywodd lais Capten Sullenberger dros y system sain yn dweud, 'Brace for impact'. Lai na saith munud ar ôl gadael y llain lano ym maes awyr La Guardia, am 15.31 y prynhawn, llwyddodd Sullenberger i lano'r awyren yn un darn ar afon Hudson.

Agorwyd y drws dros yr adain. Greddf gyntaf Dave Sanderson oedd neidio o'i sedd a'i throi hi am y drws, ond wrth iddo wneud hynny, clywodd lais ei fam, a oedd wedi marw bum mlynedd ynghynt, yn dweud wrtho, 'Dave, if you do the right thing, God will take care of you.' Felly, yn hytrach na'i throi hi am y drws, fe drodd Dave am gefn yr awyren i weld a fedrai gynorthwyo rhai o'r teithwyr llai abl. Yno roedd un hen wraig a oedd

yn benderfynol nad oedd am symud o'i sedd. Bu'n rhaid iddi gael ei hannog gan deithwyr eraill; safodd Dave y tu ôl iddi a thrwy waith tîm llwyddodd Dave ac eraill i gael y wreigan at y drws ac allan ar yr adain.

Dave oedd y teithiwr olaf ar yr awyren ac erbyn iddo gyrraedd y drws, roedd yr adain eisoes yn llawn o bobl, a doedd dim lle iddo. Roedd e'n teimlo ei bod hi ar ben arno, ond unwaith eto clywodd lais ei fam yn dweud wrtho, 'No such thing as can't, Dave!' Felly, pan welodd gwch yn taro trwyn yr awyren, fe benderfynodd neidio i mewn i'r dŵr rhewllyd (5°C); cofiwch mai ar 15 Ionawr y digwyddodd hyn. Cyrhaeddodd y cwch yn ddiogel, diolch i'r gwersi nofio yr oedd ei rieni wedi mynnu ei fod yn eu cael pan oedd yn blentyn, a chael ei dynnu o'r dŵr.

Wrth ei holi am y digwyddiad beth amser wedyn, gofynnwyd i Dave beth oedd yn aros gyda fe am y ddamwain a'r hyn ddigwyddodd, ac yn enwedig ddisgrifiad Dave Paterson, Llywodraethwr Talaith

Efrog Newydd ar y pryd, o'r digwyddiad fel 'The miracle on the Hudson'. Dyma ddywedodd e:

You've got to look at the entire situation. You have a plane in New York city, the busiest city in the world, at rush hour, so at the busiest time in the busiest city, and passengers came together as a team – people who did not know each other and didn't care about each other – and it shows the power, when you check in your ego at the door, ANYTHING is possible.

Gyfeillion, wrth i ni edrych ar ddyfodol eciwmeniaeth gyda'n gilydd, gadewch i ni ddilyn cyngor Dave: 'When you check in your ego at the door, ANYTHING is possible.'

Diolch yn fawr iawn am eich sylw, am ddod heno, ac yn enwedig i Casi a Rosie am y gwahoddiad i roi'r ddarlith hon er cof am Lloyd Jones; mae wedi bod yn fraint.

Gellir gwyllo a darllen y ddarlith gyfan ar wefan [Cytûn](#).



Undeb Bedyddwyr Cymru

The Baptist Union of Wales

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn awyddus i benodi Gweinyddydd

(dros dro yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth, 16 awr yr wythnos)

Lleoliad: Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Pwrpas y Swydd: Cyflawni ystod eang o ddyletswyddau gweinyddol er mwyn sicrhau bod y swyddfa yn rhedeg yn esmwyth

Gofynnir am o leiaf 2 flynedd o brofiad perthnasol, cymhwyster priodol, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office 365.

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, cysylltwch â Mrs Gwen Lye-Phillips – post@ubc.cymru

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Parchedig Judith Morris neu Mr Nigel Vaughan – 0345 222 1514

Cyflwg: Graddfa UBC £21,545.81–£22,343.24 pro rata

Dyddiad Cau: 27 Hydref 2023

S4C

Sul, 8 Hydref, am 7.30yh

Bydd Nia Roberts yn ymweld ag arfordir Ceredigion ar drywydd un o deuluoedd mwyaf llengar a diwylliedig Cymru, Teulu'r Cilie. Yn cadw cwmni iddi fydd Dafydd Iwan a Jon Meirion Jones. Daw'r emynau o Gapel y Wig, Llangrannog, a chawn berfformiad gan ferched Clwb Ffermwyr Ifanc Caerwedros.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 8 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor

Sul, 8 Hydref, am 12yp

Oedfa dan ofal Jamie Medhurst, Aberystwyth

SOULED OUT '23

Fe hoffwn rannu rhai o fy uchafbwyntiau efo chi ar ôl mynychu cwrs Souled Out yr haf hwn. Digwyddiad pum diwrnod yng Ngholeg y Bala sy'n llawn gweithgareddau cyffrous, cyfleoedd i addoli ar y cyd a thyfu perthynas agosach at Dduw, ydy Souled Out.

Y thema eleni oedd 'Rhyddid', ac roedd yn canolbwyntio ar sut mae Duw wedi ein rhyddhau drwy rodd ei Fab, Iesu Grist. Roedd y Souled Out hwn yn arbennig o bwysig eleni gan iddo lanio wythnos cyn fy medydd. Rhoddodd y cyfle i mi dyfu'n agosach at Dduw cyn fy medydd, a rhoi'r wythnos i fyfyrion a diolch iddo am y gwaith yr oedd wedi'i wneud ynof fi ers imi roi fy mywyd i Grist. Mae Souled Out hefyd wedi rhoi lle diogel i mi gael hwyl gyda ffrindiau, gofyn cwestiynau am fy ffydd a themlo croeso gan bawb!

Un o fy uchafbwyntiau personol am yr wythnos oedd gallu dod â fy ffrind gyda mi, a'i gweld hi'n tyfu mewn ffydd. Roedd gweld ei hyder yn tyfu wrth gael ei chroesawu cymaint gan gymuned Souled Out yn anhygoel! Roedd gweld sut roedd Duw yn gweithio ynddi drwy gydol yr wythnos, ynghyd â llawer mwy o unigolion, yn wirioneddol ysbrydoledig. Yn ogystal â hyn, roedd clywed tystiolaethau a phrofiadau personol unigolion am sut mae Duw wedi siapio'u bywydau yn fy atgoffa o sut y gall Duw wir newid bywydau.

Addoli gyda'n gilydd yw fy hoff ran o Souled Out. Mae'r awyrgylch yn hollol anhygoel, ac mae'r gallu i addoli gyda'n gilydd yn rhydd yn creu profiad annisgrifiadwy. Mae Souled Out yn cynnig y cyfle i foli Duw gyda phobl eraill sydd hefyd yn caru addoli Duw. Roedd Duw yn bendant yn bresennol yn yr addoliad, yn gweithio drwy bobl ac yn rhoi profiad bythgofiadwy i bawb, yn enwedig yn y sesiwn ar ôl oriau, 'Dyfnach', sef cyfle arbennig i dreulio mwy o amser yn addoli Duw.

Roedd y sesiynau'n uchafbwynt arall ac yn gyfle i blymio'n ddyfnach i'r thema 'Rhyddid'. Yn y rhain roedd y siaradwyr yn gallu egluro'r thema o'r Beibl gan ddefnyddio gwahanol brofiadau a heriau o fewn ein bywydau bob dydd. Yn bersonol, cefais fudd mawr o'r grwpiau



bach a gynhaliwyd ar ôl y prif sgysiau i drafod y cwestiynau a'r pynciau a godwyd gan y siaradwr. Rhoddodd gyfle hefyd i mi ofyn cwestiynau pan nad oeddwn yn deall rhywbeth.

Uchafbwynt arall yr wythnos oedd y gwahanol weithgareddau hwyl! Roedd yn rhoi cyfle i mi ddod i adnabod y bobl newydd oedd wedi dod am y tro cyntaf a chwarae gemau gyda fy ffrindiau eraill. Roedd gwahanol opsiynau ar gael hefyd, megis un prynhawn lle roedd cyfle naill ai i chwarae yn y gêm bêl-droed Souled Out flynyddol neu gael prynhawn mewn caffi lleol yn gwneud gweithgareddau crefft. Trwy gydol yr wythnos buom yn ymweld â pharc trampolîn, bowlïo deg, yn 'rhostio mochyn' a dawnsio yn nisgo blynyddol Souled Out gyda mefus siocled – ac enwi dim ond rhai pethau!

Roedd gallu profi sut roedd Duw yn symud ym mywydau unigolion yn Souled Out yn wir fendith. Roedd yn anhygoel gwyllo pobl yn cael eu rhyddhau a dysgu bod aberth Iesu wedi ein rhyddhau o bob pechod a'r angen i gymharu â phobl eraill. Fe wnes i ddsygu bod Duw yn ein caru ni i gyd yn gyfartal a bod neb yn well

neu'n waeth; ry'n ni'n bobl rydd ac wedi ein caru gan Dduw.

Ers dod i Souled Out, mae fy mywyd wedi newid yn llwyr! Rwyf wedi gwneud ffrindiau am oes a dyma hefyd y fan lle rhoddais fy mywyd yn llawn i Iesu. Mae gallu dod yn ôl bob blwyddyn yn wir fendith, yn enwedig eleni cyn i mi gael fy medyddio! Mae Souled Out wedi bod yn hanfodol i dwf a dyfnder fy ffydd, yn ogystal â rhoi rhai o'r atgofion gorau i mi a ffrindiau oes sy'n fy nghefnogi trwy fy mywyd Cristnogol. Mae Souled Out yn rhoi'r cyfle i chi herio'ch ffydd, cael hwyl gyda phobl anhygoel ac yn rhoi atebion i unrhyw gwestiynau sydd gennych. Byddwn yn argymhell yn gryf eich bod yn dod i brofi pum diwrnod gorau'r haf! Mae'n rhy dda i golli allan, felly Souled Out 2024 amdani!

*Beca Davies
myfyrwraig o Landdewibrefi*

Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuentid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 2

Banc Bwyd Genesis 41:37-49 | 8 Hydref



Gweddi

Plygwn o'th flaen, Arglwydd, yn ein myfyrdod, gan ddiolch am y bywyd sydd ar ein bwrdd bob dydd. Byddwn yn medru tyfu neu brynu bwydydd iach a blasus gan wybod bod y dewis sydd gennym yn eang. Helpa ni i feddwl heddiw am y rhai sydd heb yr incwm priodol i gwrdd â'u holl gostau ac sy'n gorfod dewis rhwng talu biliau neu brynu bwyd i'r teulu. Amen.

Darlleniad: Genesis 41:37-49

Cyflwyniad

Bydd hanes Joseff yn gyfarwydd i bawb, ac yntau wedi ei werthu fel caethwas i'r Aifft gan ei frodyr cenfigennus. Cododd ei statws o fod yn garcharor i fod yn brif weinidogyr Aifft, a hynny am fod ganddo'r ddawn i ddehongli breuddwydion a threfnu'n dda. Ar ddechrau pennod 41 cofnodir breuddwydion Pharo am y saith buwch denau yn bwyta'r saith buwch dew, a'r saith dywysen denau yn llyncu'r saith dywysen dew. Dehonglodd Joseff y breuddwydion i rag-weld saith blwyddyn ffyniannus ac yna saith mlynedd heb gnydau, a bod angen darparu yn y cyfnod o lewyrch ar gyfer y cyfnod o newyn. Cafodd Joseff y gwaith gan Pharo o drefnu i storio bwydydd yn y saith blwyddyn dda ar gyfer y saith mlynedd wael. Yn ddiweddarach yn yr hanes daeth brodyr Joseff o Ganaan i chwilio am fwyd, ac mae'r hanes yn gorffen gyda chymod rhwng y teulu cyfan.

Myfyrdod

Bydd pob teulu doeth yn cynilo mewn cyfnod o ddigonedd er mwyn cynnal eu hunain mewn cyfnod o brinder. Bydd rhai, fel actorion neu'r sawl sydd heb waith cyson, yn gorfod dysgu'r

egwyddorion sylfaenol hyn. Beth am y bobl sydd heb ddigon yn y lle cyntaf, ac yn ôl yr hen air yn 'dal llygoden a'i bwyta'? Yn yr un modd, mewn gwledydd lle ceir sychder mawr am sawl blwyddyn, fel yng ngogledd cyfandir yr Affrig, nid oes economi ddiogel i sicrhau unrhyw gynilo, ac maent yn aml yn bwyta'r tatws had heb syniad beth i'w blannu ar gyfer y tymor nesaf. Daw enwau gwledydd fel Eritrea ac Ethiopia yn sydyn i'r cof o argyfyngau'r gorffennol.

Yr un math o ing a ddaw'n brofiad i'r teuluoedd ym Mhrydain sydd yn aml yn gweithio, fel nad ydynt yn medru hawlio nawdd cymdeithasol, ond heb ennill digon i dalu costau sylfaenol bywyd ac yn gorfod gwneud dewisiadau anodd yn rheolaidd. Nodwedd gyfarwydd ym Mhrydain bellach yw'r Banciau Bwyd, a bu'r eglwys ar flaen y gad yn casglu bwydydd sych neu mewn tuniau ar eu cyfer. Bydd y teuluoedd tlawd hyn yn cael talebau gan weithwyr cymdeithasol neu ganolfannau meddygol sy'n eu galluogi i gasglu bagiaid o nwyddau cyfwerth â thri diwrnod o fwyd i'w helpu ar eu taith. Prin bod hyn yn ddelfrydol, ond mae'n cwrdd â gofynion y dydd. Dyma enghraifft o eglwys ar waith.

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 dosbarthodd banciau bwyd sy'n rhan o rwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell bron i 3 miliwn o barseli bwyd brys i bobl oedd yn wynebu caledi ar hyd a lled Prydain – sef cynnydd o 37% o'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Dosbarthwyd dros filiwn o'r parseli hyn i deuluoedd lle mae yna blant. Yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 100% yn y galw am gymorth rhwng 2018 a 2022. Yn 2018 tua 94,000 o becynnau a ddosbarthwyd, ond erbyn 2022 roedd y nifer wedi codi i 185,000 o becynnau. Diolch i bawb mewn eglwys

ar hyd a lled Cymru sy'n helpu i drefnu'r gwaith hwn.

Gall pawb gynorthwyo drwy brynu rhywbeth ychwanegol wrth siopa, a'i adael yn y capel. Nid pawb sydd yn medru bod yn y festri ar bryn hawn Sul yn gweini bwyd i'r digartref, ond bydd prynu eitem ar gyfer y gwasanaeth hwn yn bosibl i bawb. Gallwn ddyfynnu geiriau Iesu eto o ddameg y Defaid a'r Geifr (Mathew 25), 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.'

Gweddi

Trugarha wrthyf, Arglwydd, am boeni gormod am ymborth fy mwrdd i, heb feddwl am yr hyn sydd ar fwrdd y rhai sydd heb fodd i gynllunio bwydlen iach i'w teuluoedd. Diolchwn heddiw am y cyfeillion sy'n cydlynu cynllun y Banciau Bwyd, ac yn effro i'w rannu'n deg gyda'r anghenus yn ein broydd. Agor fy llygaid i weld y cyfle ac i weithredu gyda llu o gymunedau ffydd eraill a mudiadau dyngarol ledled Cymru, ac ar draws y byd. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Ai doethineb darbodus oedd fod Joseff wedi cynnig arweiniad i Pharo, neu gynllun rhyfeddol Duw yn trefnu bod eiddgedd hunanol y brodyr yn arwain at daith y breuddwydiwr i'r Aifft?
- 2 Beth sy'n cael ei ddweud am Dduw Israel yn hanes Joseff?
- 3 Ydy hi'n haws uniaethu ag apêl leol i gynorthwyo cymydog drwy estyn rhodd i fanc bwyd mewn ysgol neu eglwys yn hytrach na chefnogi apeliadau dyngarol fel Water Aid neu War on Want?
- 4 Clywsom lawer am arswyd pobl yn nwyrain Libya yn ddiweddar, gyda 25% o'r boblogaeth wedi marw neu ar goll yn dilyn y llifogydd. Fyddwch chi'n gweld cefnogi apêl UNICEF neu Gymorth Cristnogol yn rhan o'ch gweddio ymarferol chi?
- 5 A yw gweld gwastraff bwyd yn codi mesur o dristwch ac euogrwydd ynom?

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru